# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 18 Hydref 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

# 25

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3998

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Cwestiwn Brys

Dechreuodd yr eitem am 14.17

**Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl Trafnidiaeth Cymru yn y broses gaffael i weithredu gwasanaethau rheilffordd yng Nghymru, yn dilyn y cyhoeddiad bod pedwar ymgeisydd yn cystadlu am fasnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau? EAQ(5)0055(EI)

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.28

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Cyllideb Ddrafft 2017-18

Dechreuodd yr eitem am 14.44

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

Dechreuodd yr eitem am 15.33

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Y Rhaglen i Ddileu TB Buchol

Dechreuodd yr eitem am 16.21

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Dyfodol Gwasanaethau Bysiau yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 17.16

## 7 Dadl: Adroddiad Blynyddol 2015-16 Comisiynydd y Gymraeg

Dechreuodd yr eitem am 17.54

**NDM 6117** Jane Hutt (Bro Morgannwg):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2015-16, sy'n manylu ar y gwaith y mae'r Comisiynydd wedi'i wneud er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pwysigrwydd cynllunio'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg fel agwedd ganolog o ymdrechion y Llywodraeth i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i gyflwyno strategaeth genedlaethol Cymraeg yn y gweithle er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o hawliau i dderbyn gwasanaethau drwy'r Gymraeg.

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn gweithredu argymhelliad 4 yn adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol: Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog, i roi dyletswydd statudol i awdurdodau lleol, gan gynnwys yn eu swyddogaeth fel awdurdodau addysg lleol, i gynllunio gweithlu o safbwynt sgiliau ieithyddol, ac i baratoi hyfforddiant addas i gwrdd â'r anghenion hynny.

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM 6117** Jane Hutt (Bro Morgannwg):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1.Yn cydnabod Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2015-16, sy'n manylu ar y gwaith y mae'r Comisiynydd wedi'i wneud er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

2.Yn nodi pwysigrwydd cynllunio’r gweithlu i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg fel agwedd ganolog o ymdrechion y Llywodraeth i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

3.Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i gyflwyno strategaeth genedlaethol Cymraeg yn y gweithle er mwyn cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg yn y gweithle a hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o hawliau i dderbyn gwasanaethau drwy’r Gymraeg.

4.Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn gweithredu argymhelliad 4 yn adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol: Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog, i roi dyletswydd statudol i awdurdodau lleol, gan gynnwys yn eu swyddogaeth fel awdurdodau addysg lleol, i gynllunio gweithlu o safbwynt sgiliau ieithyddol, ac i baratoi hyfforddiant addas i gwrdd â’r anghenion hynny.

**Derbyniwyd cynnig wedi’i ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Nid oedd Cyfnod Pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.30

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 19 Hydref 2016**